LLYWODRAETH CYMRU

TÎM POLISI PORTHLADDOEDD

DEDDF HARBYRAU 1964 (FEL Y'I DIWYGIWYD)

# GORCHYMYN ARFAETHEDIG I DDIWYGIO HARBWR SAUNDERSFOOT (CYFANSODDIAD) 2024

DATGANIAD I GEFNOGI'R CAIS AM Y GORCHYMYN GAN GOMISIYNWYR HARBWR SAUNDERSFOOT

Tabl o'r cynnwys


Rhagymadrodd

1. Cyflwyniad
2. Comisiwn Harbwr Saundersfoot
3. Harbwr Saundersfoot
4. Crynodeb o weithgareddau a datblygiadau'r Harbwr ers 2011
5. Deddf Harbyrau 1964 a Deddf Cymru 2017
6. Yr angen a'r cyfiawnhad am Orchymyn Diwygio Harbwr (GDH)
7. Casgliad

**Atodiad**

Amlinelliad o gynigion datblygu ar gyfer Harbwr Saundersfoot

**Rhagymadrodd**

Ar ôl rhai blynyddoedd o drafod gyda Llywodraeth Cymru a chadarnhau derbyn dilysrwydd y Comisiynwyr sy'n gwneud cais am Orchymyn, cyhoeddwyd GDH drafft (dan y teitl Gorchymyn Diwygio Harbwr Saundersfoot (Cyfansoddiad) 2020 ar y pryd) yn ffurfiol ar 19 Mehefin 2020 a sbardunodd gyfnod ymgynghori cyhoeddus o 42 diwrnod.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus manwl, gwnaed cais ffurfiol i Lywodraeth Cymru ar 8 Mehefin 2021 yn gofyn am gymeradwyaeth y gweinidog. Ynghyd â hyn roedd adroddiad manwl ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r newidiadau a wnaed i'r gorchymyn drafft o ganlyniad; roedd swyddogion wedi cadarnhau, ar ôl cael cyngor cyfreithiol, nad oedd y rhain yn effeithio'n sylweddol, yn eu barn hwy, ar gymeriad y gorchymyn ac na fyddent felly'n ceisio argymell cyfnod pellach o ymgynghori ar sail y newidiadau a wnaed. Cynhwyswyd y fersiwn ôl-ymgynghori a'r fersiwn derfynol o'r GDH yn Gymraeg a Saesneg hefyd.

O ystyried bod cryn amser wedi mynd heibio a gohebiaeth bellach gan swyddogion, mae'r Datganiad Cefnogi hwn wedi'i ddiweddaru wedi'i baratoi i'w gysylltu â'r cais ffurfiol am benderfyniad gweinidogol ar yr hyn sydd bellach yn GDH 2024.

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â'r cais gan Gomisiynwyr Harbwr Saundersfoot ("y Comisiynwyr") am Orchymyn Diwygio Harbwr Saundersfoot (Cyfansoddiad) 2024 ("y GDH") a gynigiwyd ac mae'n ddiweddariad ar hwnnw, y gwnaed y cais gwreiddiol amdano fel GDH 2020. Y Comisiynwyr yw'r awdurdod harbwr statudol ar gyfer Harbwr Saundersfoot ("yr Harbwr").

1.2 Gwnaed y cais mewn llythyr gan ein cyfreithwyr at Lywodraeth Cymru dyddiedig 19 Mehefin 2020 ac ynghyd â'r cais roedd:

1.2.1 drafft o'r GDH arfaethedig; a

1.2.2 fersiwn wreiddiol y datganiad hwn.

1.3 Mae'r cais am wneud gorchymyn diwygio harbwr yn unol ag adran 14 o Ddeddf Harbyrau 1964 sydd wedi'i ddirprwyo i Lywodraeth Cymru gan Ddeddf Cymru 2017.

1.4 Byddai'r GDH yn gwneud nifer o newidiadau i gyfansoddiad y Comisiynwyr ac yn moderneiddio'r ddeddfwriaeth harbyrau statudol leol bresennol yr ystyrir ei bod yn ffafriol i weithredu, cynnal a chadw, rheoli a gwella'r Harbwr yn effeithlon ac economaidd, yn enwedig o ystyried y rhaglen fuddsoddi a datblygu fawr sy'n cael ei chynnal.

1.5 Byddai'n galluogi'r Comisiynwyr i wneud cyfraniadau pellach i bentref a chymuned Saundersfoot fel yr eglurir yn y disgrifiad o'r cynigion datblygu y cyfeirir atynt yn 3 isod ac a gynhwysir yn fanwl fel yr Atodiad i'r datganiad hwn.

## 2. COMISIYNWYR HARBWR SAUNDERSFOOT

2.1. Mae'r Harbwr yn borthladd ymddiriedolaeth sy'n eiddo i'r Comisiynwyr ac yn cael ei reoli ganddynt, sef corff a sefydlwyd ac a lywodraethir gan ei ddeddfwriaeth leol ei hun, a'r diweddaraf ohoni yw Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011 ("Gorchymyn Grymuso 2011"). Mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol am weinyddu, cynnal a chadw a gwella'r Harbwr.

2.2. Fel Porthladd Ymddiriedolaeth, mae Comisiynwyr yn cael eu penodi o dan weithdrefnau a gynhwysir mewn gwahanol ddeddfwriaeth yn unol â chanllawiau gan yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru. Nid oes cyfranddalwyr na pherchnogion.

2.3. Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, mae'r Comisiynwyr yn cadw at y safonau a nodir yng nghanllawiau'r Llywodraeth ar gyfer llywodraethu porthladdoedd ymddiriedolaeth sy'n ymwneud ag atebolrwydd ac yn ceisio gweithredu mewn ffordd agored ac atebol ond heb gyfaddawdu cyfrinachedd masnachol na chyfrifoldeb cyfreithiol. Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynnwys mewn amryw o gyhoeddiadau gan gynnwys Modernising Trust Ports (argraffiad cyntaf 2000 a'r

ail argraffiad ohono a gyhoeddwyd yn 2009), a Ports Good Governance Guidance a gyhoeddwyd yn 2017 ynghyd ag eraill.

2.4. Er bod y cais am GDH 2011 wedi'i wneud ar ôl cyhoeddi canllawiau penodol ar gyfer porthladdoedd ymddiriedolaeth, dim ond rhywfaint o'r canllawiau a'r arfer gorau a oedd wedi'u hamlinellu ar y pryd yr oedd yn eu hymgorffori. Yn unol â chanllawiau porthladd ymddiriedolaeth y dylai byrddau adolygu eu trefniadau llywodraethu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn unol ag arferion gorau a safonau canllawiau o'r fath, mae'r GDH 2023 hwn yn ceisio cywiro'r hepgoriadau hyn a sicrhau bod cyfansoddiad a llywodraethu Harbwr Saundersfoot yn gyfredol.

2.5. Mae'r Comisiynwyr hefyd wedi ymrwymo i gydymffurfio ag egwyddorion amrywiol godau ac adroddiadau eraill (e.e. Cod Cyfunol/Cadbury, Egwyddorion Nolan) sy'n cwmpasu llywodraethu corfforaethol i'r graddau sy'n berthnasol i'w cyfansoddiad.

## 3. HARBWR SAUNDERSFOOT

3.1. Mae'r Harbwr yn Ne Sir Benfro yn ddyledus am ei darddiad i'r diwydiant glo a sefydlwyd yn wreiddiol ym 1834 i gefnogi allforio glo o'r meysydd glo lleol. Er bod y diwydiant hwnnw wedi diflannu ers cryn amser, mae'r Harbwr wedi chwarae rhan bwysig yn yr economi leol ers amser maith fel porthladd pysgota (yr ail fwyaf yng Nghymru ar hyn o bryd yn ôl tunelledd y ddalfa sy'n cael ei glanio), fel harbwr hamdden a chanolbwynt yn yr economi dwristiaeth leol.

3.2. Harbwr sychu bach yn Sir Benfro yw Harbwr Saundersfoot a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer cychod hamdden. Mae'r Harbwr hefyd yn cynnal fflyd o 8 cwch pysgota masnachol ynghyd â nifer fach o weithredwyr masnachol eraill sy'n cynnig profiadau i dwristiaid. Yn ogystal, mae'r Harbwr yn cyflenwi system rheseli cychod a 200 o angorfeydd hamdden. Mae lle ar gael i storio hyd at 55 o gychod hefyd a defnyddir teclyn codi cychod 16T ar y safle. Mae'r cei'n 349m o hyd ac mae nifer o eiddo yn yr harbwr sy'n cael eu defnyddio gan ddefnyddwyr pysgota, twristiaeth forol a hamdden lleol. Defnyddir mannau ac eiddo eraill ar gyfer gweithrediadau manwerthu ac mae'r harbwr hefyd yn neilltuo ac yn cefnogi'r defnydd o'i le a'i gyfleusterau ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau cymunedol.

**Commented [TS1]:** Check with Michael as to whether this is still the case

## 4. CRYNODEB O WEITHGAREDDAU A DATBLYGIADAU ERS 2011

4.1. Mae'r Harbwr ymhlith dros gant o borthladdoedd ymddiriedolaeth yn y DU sy'n rhannu'r ffactor cyffredin eu bod yn cael eu gweithredu fel mentrau masnachol gan gomisiynwyr/aelodau bwrdd penodedig gyda dyletswydd i ail-fuddsoddi'r holl warged er budd yr harbwr a'i randdeiliaid cymunedol (nid oes cyfranddalwyr na difidendau i'w talu), yn enwedig gyda golwg ar gynaliadwyedd yr harbwr yn y dyfodol.

4.2. Yn sgil derbyn Gorchymyn Grymuso 2011 drwy bwerau datganoledig Llywodraeth Cymru, cadarnhawyd perchnogaeth y tir a diweddarwyd rhai agweddau ar lywodraethu'r Harbwr. Sefydlodd hyn blatfform i'r Harbwr adeiladu ar ei ddosbarthiad presennol o borthladd pysgota i ystyried yn fwy strategol sut i ddatblygu ei gyfleusterau morol. Yn benodol, cafwyd cyfle i benderfynu sut i wella ei weithrediadau gydag ymwelwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol mewn golwg ac adlewyrchu strategaethau twristiaeth, adfywio a morol Llywodraeth Cymru.

4.3. Felly, cynhaliodd y Comisiynwyr newydd a benodwyd yn dilyn Gorchymyn Grymuso 2011 adolygiad strategol manwl gyda chefnogaeth ymgynghoriad lleol manwl. Cyhoeddwyd hwn yn 2012 fel datganiad strategaeth "Hwylio Ymlaen" ac ynddo y datganiad cenhadaeth craidd oedd:

4.3.1. Creu a chynnal 'Hafan Ddiogel' a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer hwylwyr lleol ac ymwelwyr a fydd yn ganolfan ragoriaeth o ran rheoli, croesawu a chyfathrebu â rhanddeiliaid.

4.3.1.1. Annog twf trwy chwaraeon dŵr, cyfleusterau morol mewnol, hyfforddiant a thwristiaeth gynaliadwy er budd y gymuned fusnes a chymdeithasol ehangach.

4.4. Nododd y Comisiynwyr y ffordd y byddai hyn yn cael ei gyflawni mewn cyfres o uchelgeisiau a nodwyd yn glir fel:

4.4.1. Creu diwylliant croesawgar felly adeiladu enw da am ddibynadwyedd a gwasanaeth cyfeillgar a sefydlu Brand Harbwr Saundersfoot;

4.4.2. Peidio ag ofni newid ac ymrwymo i greu busnes proffidiol a chynaliadwy gydag arferion masnachol modern ac atebolrwydd ariannol llwyr;

4.4.3. Gwneud gweithrediad yr harbwr yn hyfyw fel ffrwd refeniw annibynnol a defnyddio holl elw gweithgareddau nad ydynt yn forol fel Cronfa Datblygu i wella cyfleusterau'r harbwr;

4.4.4. Bod yn gystadleuol â phorthladdoedd/marinas eraill o ran cyflenwi cynnyrch a phrofiad;

4.4.5. Creu uchelgais cydweithredol ar gyfer llwyddiant gyda rhanddeiliaid harbwr, cymuned a busnes wedi ymrwymo a dwyn buddion i bawb gyda’i gilydd;

4.4.6. Nodi ein cynulleidfa darged o ddefnyddwyr yn glir ac addasu a chyfeirio ein marchnata i'r proffil demograffig priodol;

4.4.7. Cael ein gweld yn amlwg fel cyfathrebwyr da â’r trigolion a'r rhanddeiliaid cymunedol felly annog 'Perchnogaeth' ar y Porthladd Ymddiriedolaeth gan ei gleientiaid a'i gefnogwyr;

4.4.8. Bod yn ddarbodus, yn gyfrifol ac yn ymwybodol o arferion Llywodraethu Corfforaethol da;

4.4.9. Rhagori ar ddisgwyliadau ein cleient bob amser ac i bob cyfeiriad.

4.5. Datblygwyd cynllun gweithredu pum mlynedd yn seiliedig ar sefydlu agendâu cyffredin gyda phartneriaid gwirioneddol a darpar bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, cymunedol a phreifat a wnaeth alluogi trafod pellach gyda rhanddeiliaid a datblygu cydweithio.

4.6. Lluniwyd cynllun datblygu wedi'i gostio a'i drefnu’n gamau a chafodd cymorth a chyllid eu cyrchu a’u hymrwymo i alluogi'r camau cyntaf i ddechrau.

4.7. Mae'r rhan fwyaf o gamau datblygu wedi gofyn am ganiatâd ffurfiol gan yr awdurdod cynllunio, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a hefyd gan sefydliadau statudol a rheoleiddiol eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ystâd y Goron.

4.8. Rhoddir manylion y datblygiad fesul cam a'r amserlenni dan sylw yn Atodiad 1.

## 5. DEDDF HARBYRAU 1964 A DEDDF CYMRU 2017

5.1. Mae adran 14 o Ddeddf Harbyrau 1964 ("Deddf 1964") yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn o dan yr adran honno (a elwir yn orchymyn diwygio harbwr) mewn perthynas â harbwr sy'n cael ei wella, ei gynnal neu ei reoli gan awdurdod harbwr wrth arfer a chyflawni pwerau a dyletswyddau statudol er mwyn cyflawni'r cyfan neu unrhyw un o'r amcanion a bennir yn Atodlen 2 i Ddeddf 1964. Ar gyfer porthladdoedd a harbyrau yng Nghymru (ac eithrio un porthladd ymddiriedolaeth mawr), mae'r pwerau hyn bellach wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru.

5.2. Mae adran 14(2) o Ddeddf 1964 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod sy'n ymwneud â gwella, cynnal a chadw neu reoli'r harbwr dan sylw wneud cais ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru ac mae adran 14(2)(a) o Ddeddf 1964 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod sy'n ymwneud â gwella, cynnal a chadw neu reoli'r harbwr dan sylw wneud cais ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru ac mae adran 14(2)(b) yn amodi bod rhaid i Lywodraeth Cymru:

> "gael ei bodloni bod gwneud y gorchymyn yn ddymunol er mwyn sicrhau bod yr harbwr yn cael ei wella, ei gynnal a’i gadw neu ei reoli mewn modd effeithlon ac economaidd neu er mwyn hwyluso cludo nwyddau neu deithwyr yn effeithlon ac economaidd ar y môr neu er mwyn defnydd hamdden llongau mordeithiol."

5.3. Nid cais mo hwn am orchymyn diwygio harbwr sydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn awdurdodi prosiect (o fewn ystyr paragraff 1 o Atodlen 3 i

Ddeddf 1964), felly nid oes angen hysbysiad ymlaen llaw i Lywodraeth Cymru o dan baragraff 3(a) o Atodlen 3 i Ddeddf 1964.

5.4. Mae'r cais am GDH o dan adran 14 o'r Ddeddf yn bodloni'r amodau fel y'u nodir yn yr adran honno. Yn benodol, mae'r cais yn bodloni gofynion:

5.4.1. adran 14(1) o Ddeddf 1964 am ei fod yn cael ei wneud mewn perthynas â harbwr sy'n cael ei wella, ei gynnal neu ei reoli gan awdurdod harbwr wrth arfer a chyflawni pwerau a dyletswyddau statudol ar gyfer cyflawni'r holl amcanion neu unrhyw un o'r amcanion a bennir yn Atodlen 2 i Ddeddf 1964;

5.4.2. adran 14(2) o Ddeddf 1964 oherwydd:

i. gwneir y cais ar gais ysgrifenedig awdurdod harbwr sy'n ymwneud â gwella, cynnal a chadw neu reoli'r harbwr; ac

ii. mae creu'r GDH yn ddymunol er mwyn sicrhau gwella, cynnal a chadw neu reoli'r harbwr mewn modd effeithlon ac economaidd.

5.5. Mae Atodlen 2 o Ddeddf 1964 yn amodi y gall gorchymyn diwygio harbwr gynnwys darpariaeth ar gyfer:

5.5.1. ailgyfansoddi’r awdurdod harbwr y mae'r harbwr yn cael ei wella, ei gynnal neu ei reoli ganddo neu newid ei gyfansoddiad (paragraff 1 Atodlen 2);

5.5.2. rheoleiddio gweithdrefn yr awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau (paragraff 2 o Atodlen 2);

5.5.3. amrywio neu ddiddymu dyletswyddau neu bwerau a osodwyd neu a roddwyd i'r awdurdod sef dyletswyddau neu bwerau a osodwyd neu a roddwyd at ddibenion gwella, cynnal a chadw neu reoli'r harbwr (paragraff 3 o Atodlen 2);

5.5.4. gosod neu roi dyletswyddau neu bwerau i'r awdurdod, at y diben y cyfeirir ato uchod, naill ai yn ychwanegol at ddyletswyddau neu bwerau a osodwyd neu a roddwyd fel y soniwyd uchod, neu yn hytrach na hwy;

5.5.5. diwygio'r terfynau y mae'r awdurdod i fod ag awdurdodaeth o fewn iddynt (paragraff 6 o Atodlen 2);

5.5.6. sicrhau lles swyddogion a gweision yr awdurdod a grymuso’r awdurdod i ddarparu, neu sicrhau darpariaeth, pensiynau, rhoddion a buddion tebyg eraill ar gyfer neu mewn perthynas â'u swyddogion a'u gweision.

## 6. ANGEN A CHYFIAWNHAD AR GYFER GDH

### 6.1. **Cyffredinol**

6.1.1. Byddai'r GDH arfaethedig yn moderneiddio cyfansoddiad y Comisiynwyr yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ar gyfer porthladdoedd ymddiriedolaeth sy'n cael ei ystyried yn ffafriol i weithredu, cynnal a chadw, rheoli a gwella'r Harbwr yn effeithlon ac economaidd.

6.1.2. Rheolir yr Harbwr gan y Comisiynwyr er budd pob sector o gymuned yr Harbwr ("buddiolwyr") gan gynnwys:

i. defnyddwyr yr harbwr (perchnogion cargo, teithwyr, gweithredwyr llongau ac ati) ac eraill sy'n cael budd uniongyrchol o'r Harbwr (gweithwyr, y rhai sydd â buddiant masnachol uniongyrchol yng ngweithrediad yr harbwr fel masnachwyr a'u gweithwyr); a'r

ii. rhai sydd â buddiant anuniongyrchol yng ngweithrediad atebol ac effeithiol yr harbwr gan gynnwys yr awdurdod lleol (Cyngor Sir Penfro) a'r gymuned yn gyffredinol, y llywodraeth, yr economi ranbarthol, grwpiau diddordeb penodol megis yr amgylchedd, cadwraeth (gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) a thrafnidiaeth.

6.1.3. Mewn cydweithrediad â'r llywodraeth, yr awdurdod lleol ac eraill, mae'r harbwr yn destun datblygiad sylweddol o ddiddordeb rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

6.1.4. Cynigir nifer o newidiadau i Orchymyn Grymuso 2011 er mwyn sicrhau bod y Comisiynwyr:

i. yn gallu cydymffurfio â'u dyletswydd i sicrhau bod y buddion gorau posibl ar gael i bob buddiolwr (presennol, potensial ac yn y dyfodol); ac

ii. yn gweithredu o fewn fframwaith o ddidwylledd ac atebolrwydd.

iii. yn bodloni'r meincnodau rhagoriaeth ac arfer da fel y'u nodwyd gan y llywodraeth ar gyfer pob porthladd ymddiriedolaeth; ac

iv. yn meddu ar yr arbenigedd masnachol a bod y cyllid ar gael iddynt weithredu'r hyn a ddaw'n fusnes miliynau o bunnoedd, yn effeithlon.

6.1.5. Nodir isod esboniad o bob erthygl o sylwedd y GDH, a'r angen amdani, gan gyfeirio pob un at yr adran briodol o Atodlen 2 o Ddeddf Harbyrau 1964 sy'n nodi'r amcanion y gellir gwneud Gorchmynion Diwygio Harbwr ar gyfer eu cyflawni.

6.2. **Erthygl 4 y GDH – Y Comisiynwyr** sy'n unol ag Adran I o Atodlen 2 "... newid eu cyfansoddiad ...".

6.3. Mae'r erthygl hon yn dileu'r nifer penodedig o Gomisiynwyr, sef wyth ar hyn o bryd. Mae’r Comisiynwyr yn dymuno cael y gallu i benodi hyn a hyn o Gomisiynwyr ychwanegol ag arbenigedd perthnasol heb gyfyngiad er mwyn gwella’r sylfaen sgiliau a swyddogaeth effeithiol y Comisiynwyr. Mae hyn yn adlewyrchu egwyddorion effeithiolrwydd bwrdd Ports Good Governance Guidance ("y Canllawiau") gan nodi'r angen i fyrddau fod o faint digonol fel bod gofynion y busnes yn cael eu bodloni

6.4. Mae'r erthygl hon hefyd yn nodi cyfansoddiad y Comisiynwyr yn y dyfodol, gan nodi na fydd llai nag wyth a dim mwy na deuddeg o Gomisiynwyr sef y paramedrau a argymhellir a amlinellir yn Modernising Trust Ports ar gyfer bwrdd effeithiol, fel y mae'r ddarpariaeth y dylai'r weithrediaeth gael ei chynrychioli ar y bwrdd fel hawl. Bydd y Comisiynwyr yn cynnwys prif swyddog gweithredol ac (os yw'r Comisiynwyr yn penderfynu) un swyddog gweithredol arall (a fydd yn dal eu swydd cyhyd ag y cânt eu cyflogi fel swyddogion gweithredol), dau berson yr ymddengys i'r Comisiynwyr fod ganddynt wybodaeth neu brofiad arbennig o sefyllfa'r Harbwr yn y gymuned leol a'r economi leol a phersonau eraill sydd â sgiliau a galluoedd priodol i gyflawni rôl Comisiynydd.

6.4.1. Yn unol â'r canllawiau, mae erthyglau 4(1)(b) a 4(c) yn nodi'r broses o benodi Comisiynwyr, gan gynnwys creu pwyllgor enwebu i ymgymryd â'r broses o benodi Comisiynwyr. Bydd y pwyllgor enwebiadau yn cynnwys aelod annibynnol ac, ar gyfer y swyddi hynny y nodir bod ganddynt wybodaeth neu brofiad arbennig o sefyllfa'r harbwr o fewn y gymuned leol a'r economi leol, aelod naill ai o Gyngor Sir Penfro neu Gyngor Cymuned Saundersfoot.

6.4.2. Mae'r erthygl yn adlewyrchu egwyddorion effeithiolrwydd y bwrdd/aelodaeth bwrdd yn y Canllawiau gan nodi'r angen i feddu ar sgiliau, profiad, annibyniaeth a gwybodaeth briodol i alluogi cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau yn effeithiol ac i benodiadau gael eu gwneud trwy broses ffurfiol, drylwyr a thryloyw.

6.5. **Erthygl 5 y GDH – Panel penodiadau** unwaith eto yn gysylltiedig ag adran 1 o Atodlen 2

Mae'r erthygl hon yn dileu'r panel penodiadau sydd wedi'i ddisodli gan y pwyllgor enwebiadau. Mae hyn unwaith eto yn unol â'r Canllawiau cyfredol ar gyfer porthladdoedd ymddiriedolaeth

6.6. **Erthygl 6 y GDH – Penodi Comisiynwyr a chyfnod swydd** unwaith eto yn berthnasol i adran 1 o Atodlen 2

Mae'r erthygl hon yn dileu trefniadau sydd wedi'u disodli, oherwydd treigl amser, gan y ddarpariaeth achlysurol sy'n ymwneud â phenodiad a chyfnod swydd Comisiynwyr yn atodlen 2 o Orchymyn Grymuso 2011.

6.7. **Erthygl 7 y GDH – Darpariaethau trosiannol** y rhan berthnasol o Atodlen 2 ar eu cyfer yw adran 17

Mae'r erthygl hon yn dileu trefniadau nad ydynt bellach yn berthnasol oherwydd treigl amser.

6.8. **Erthygl 8 y GDH – Cyfnodau swydd Comisiynwyr dilynol** sy'n berthnasol i adrannau 1 a 17 o Atodlen 2

6.8.1. Mae erthygl 8(1)(a) yn darparu i Gomisiynwyr sy'n swyddogion gweithredol ddal swydd am gyfnod eu cyflogaeth fel swyddogion gweithredol, a all fod yn fwy neu lai na thair blynedd.

6.8.2. Mae Erthygl 8(1)(b) yn dileu trefniadau nad ydynt bellach yn gymwys oherwydd treigl amser.

6.8.3. Mae erthygl 8(1)(c) yn cyfeirio at drefniadau newydd sy'n ymwneud ag ailbenodi Comisiynwyr fel y cyfeirir atynt yn fanylach ym mharagraffau 6.15 isod.

6.9. **Erthygl 9 y GDH – Swyddi gwag achlysurol** sy'n gysylltiedig eto ag adran 1 o Atodlen 2

Mae'r erthygl hon yn nodi'r weithdrefn ar gyfer penodi i swyddi gwag achlysurol. Yn amodol ar gael o leiaf wyth Comisiynydd, gellir gadael swydd wag achlysurol heb ei llenwi. Mae'r Comisiynwyr yn dymuno cael disgresiwn ynghylch a ddylid llenwi swydd wag achlysurol, gan ystyried cyfansoddiad a sylfaen sgiliau y Comisiynwyr ar yr adeg berthnasol. Bydd Comisiynydd a benodwyd i lenwi swydd wag achlysurol yn dal ei swydd am gyfnod o dair blynedd o'r dyddiad penodi, yn hytrach nag am weddill cyfnod y swydd wag. Byddai'r Comisiynwyr yn teimlo y byddai hyn yn weinyddol symlach; yn ogystal, efallai na fydd swydd wag achlysurol yn cael ei llenwi ar unwaith.

6.10. **Erthygl 10 y GDH – Pwerau cyffredinol** a gefnogir gan adrannau 3 a 4 o Atodlen 2

Mae'r erthygl hon yn cynnwys pwerau cyffredinol pellach, mwy penodol, sy'n adlewyrchu datblygiad masnachol yr Harbwr ac mae'n gyson â'r safonau llywodraethu da ar gyfer porthladdoedd ymddiriedolaeth a thriniaeth pwerau cyffredinol ar gyfer porthladdoedd ymddiriedolaeth mewn gorchmynion diwygio diweddar ar gyfer porthladdoedd ymddiriedolaeth eraill fel a gynhwysir yn Neddf Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau 2002.

6.11. **Erthygl 11 y GDH – Is-ddeddfau ynghylch yr harbwr** fel y cyfeirir ati yn adran 3 o Atodlen 2.

6.11.1. Mae erthygl 11(1)(a) yn ychwanegu at Erthygl (1) (g) GDH 2011 ac yn awr yn caniatáu i'r Comisiynwyr reoleiddio gweithgareddau llongau sy'n

teithio drwy'r Harbwr ac sydd, er enghraifft, yn angori/tirio er mwyn dadlwytho gwastraff.

6.11.2. Mae Erthygl 11(1)(b) sy'n ychwanegu at Erthygl (1) (s) GDH 2011 bellach yn caniatáu i'r Comisiynwyr reoleiddio neu wahardd pysgota o longau sy'n angori yn yr Harbwr.

6.11.3. Ceisir 6.10.1 a 6.10.2 er mwyn rheoli a rheoleiddio'n well y ffordd y defnyddir yr Harbwr yn seiliedig ar brofiad gweithredu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

6.12. **Erthygl 12 y GDH – Pwerau benthyca** y cyfeirir ati yn adrannau 10 a 13 o Atodlen 2

Mae'r erthygl hon yn cynyddu'r terfyn ar fenthyca gan y Comisiynwyr o £5,000,000 i £10,000,000. Mae pwerau benthyca presennol y Comisiynwyr yn seiliedig ar y gofynion canfyddedig gan y rhai a oedd yn ymwneud â gweithredu'r Harbwr wrth baratoi Gorchymyn Grymuso 2011. Ers hynny, mae Comisiynwyr newydd wedi'u penodi gyda setiau sgiliau gwahanol a barn wahanol i'w rhagflaenwyr ynghylch rhagolygon yr Harbwr yn y dyfodol, mae perthynas waith agosach wedi'i sefydlu â Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro ac mae strategaeth hirdymor wedi'i nodi ar gyfer datblygu'r Harbwr. Mae profiad ac uchelgais y Comisiynwyr wedi newid ac un o'r prif resymau dros y GDH yw adlewyrchu'r symudiad i ffwrdd o harbwr bach, plwyfol i borthladd ymddiriedolaeth ffyniannus, cynaliadwy ac allblyg, sy'n chwarae ei ran yn yr economi ranbarthol ac, yn wir, yr economi genedlaethol; porthladd ymddiriedolaeth sy'n gwneud y defnydd gorau o'i asedau ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y gymuned a phartneriaid masnachol i wireddu ei strategaeth ar gyfer twf. Mae hyn yn gofyn am gyllid digonol, wedi'i sicrhau ar gyfer y tymor hir ac nid yw'r terfyn benthyca presennol yn ddigonol i roi'r hyblygrwydd sydd ei angen i ddelio â rheoli buddsoddiadau ar raddfa fawr yn effeithlon ar gyfer dyfodol yr Harbwr. Mae'r rhaglen ddatblygu bresennol gwerth £10,000,000+, er ei bod wedi'i hariannu'n sylweddol gan grantiau a benthyca wedi'i hwyluso, eisoes wedi nodi sefyllfaoedd lle, am gyfnod o leiaf, mae'r gallu i gael benthyciadau masnachol wedi taro yn erbyn y terfynau presennol. Awgryma arfer gorau a chanllawiau fod angen cyllid digonol, diogel am bris cystadleuol ar gyfer diogelu'r 10 – 20 mlynedd nesaf at y dyfodol. Mae'r cynnydd arfaethedig yn y terfyn benthyca cyfredol, o'i osod yn erbyn gwerthoedd a ragwelir yn y fantolen, yn cynrychioli lefel gyfrifol o gerio masnachol.

6.13. **Erthygl 13 y GDH - Benthyca dros dro** a gefnogir gan adran 10 o Atodlen 2.

Mae'r erthygl hon yn cynyddu'r terfyn ar fenthyca dros dro (gorddrafft) gan y Comisiynwyr o £100,000 i £2,000,000, am y rhesymau a nodir ym mharagraff 6.11.

6.14. **Erthygl 14 y GDH – Addasu terfynau benthyca** unwaith eto yr adran berthnasol o Atodlen 2 yw 10

Mae'r erthygl hon yn darparu ar gyfer gwneud unrhyw addasiad i derfynau benthyca ar bob pen-blwydd dyddiad dod i rym y GDH. Bydd hyn yn dileu mater terfynau cyfredol sy'n lleihau'n raddol mewn effeithiolrwydd cymharol dros amser ac yn mynnu diweddariad ffurfiol episodaidd a drud.

6.15. **Erthygl 16 y GDH - Ailbenodi Comisiynwyr** sy'n gysylltiedig ag adran 1 o Atodlen 2

Mae'r erthygl hon yn caniatáu i Gomisiynwyr fwrw pedwerydd tymor tair blynedd yn olynol, os penderfynir hynny gan y Comisiynwyr. Mae'r Canllawiau'n argymell bod Comisiynwyr yn dal swydd am hyd at dri thymor yn olynol. Fodd bynnag, mae'r Canllawiau hefyd yn nodi y dylai uchafswm telerau ar gyfer cadeirydd bwrdd porthladd ymddiriedolaeth fod yn 12 mlynedd - byddai pedwerydd tymor eithriadol felly'n gyson â'r uchafswm tymor hwn o 12 mlynedd. Y sail resymegol i'r tymor estynedig yw sicrhau parhad profiad, gwybodaeth ac arbenigedd y Comisiynwyr yn ystod datblygiad masnachol yr Harbwr sydd ar hyn o bryd tua dwy ran o dair trwy ei gamau arfaethedig ac y mae angen ei fonitro a'i reoli'n ddigonol i gyflawni disgwyliadau'r Comisiynwyr a rhanddeiliaid.

6.16. **Erthygl 17 y GDH – Ailbenodi cadeirydd** sy'n gysylltiedig ag adran 1 o Atodlen 2.

Mae'r erthygl hon yn caniatáu ailbenodi cadeirydd y Comisiynwyr am bedwerydd tymor yn olynol o dair blynedd am y rhesymau a amlinellir uchod.

6.17. **Erthygl 18 y GDH – Tâl y Comisiynwyr a'r Cadeirydd**

6.17.1. Mae GDH 2011 cyfredol yn caniatáu i daliadau gael eu gwneud i'r Comisiynwyr fel lwfansau a threuliau, gyda'r term "taliad cydnabyddiaeth" yn cael ei ddefnyddio'n ychwanegol ar gyfer y cadeirydd. Mae erthygl 18(1)(a) y canllawiau Porthladdoedd Ymddiriedolaeth yn caniatáu talu taliad cydnabyddiaeth a lwfansau rhesymol i'r Comisiynwyr. (I nodi nad oes unrhyw daliadau o'r fath wedi'u ceisio na'u rhoi ers sefydlu'r bwrdd newydd yn dilyn GDH 2011) Mae'r canllawiau porthladdoedd ymddiriedolaeth yn derbyn y gall diffyg taliad cydnabyddiaeth fod yn rhwystr rhag recriwtio unigolion a allai fel arall ddarparu arbenigedd gwerthfawr ac felly mae'r gallu i ddarparu taliad cydnabyddiaeth yn berthnasol i bob porthladd ymddiriedolaeth ar yr amod bod mecanwaith a gweithdrefn briodol ar waith a bod unrhyw daliad cydnabyddiaeth yn cael ei amlinellu a'i esbonio mewn datganiadau blynyddol. Bwriedir felly, os bydd y bwrdd yn penderfynu mai hyn sydd er budd pennaf yr Harbwr, rhoi taliad cydnabyddiaeth i'r Comisiynwyr fel y'i pennir gan fwrdd taliad cydnabyddiaeth wedi'i sefydlu'n briodol, yn unol ag arfer gorau a chan adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau'r Comisiynwyr. Byddai hyn yn helpu i

sicrhau ymrwymiad unigolion allweddol ac yn cynorthwyo'r Comisiynwyr i gyflawni cydbwysedd effeithiol o sgiliau i ddiwallu anghenion gweithredol a strategol yr Harbwr.

6.17.2. Mae erthygl 18(2)(a) yn nodi'r broses ar gyfer penodi'r pwyllgor taliad cydnabyddiaeth.

## 7. CASGLIAD

7.1. Yn ogystal â darpariaethau penodol Atodlen 2 i Ddeddf 1964, mae paragraff 17 o Atodlen 2 yn amodi y gall gorchymyn diwygio harbwr gynnwys darpariaeth ar gyfer:

> "Unrhyw amcan sydd, er nad yw'n perthyn o fewn unrhyw rai o'r paragraffau blaenorol, yn ymddangos i'r Gweinidog priodol fel un y bydd ei gyflawni yn arwain at weithrediad effeithlon yr harbwr."

7.2. Am y rhesymau a grybwyllir uchod, fe ystyrir, i'r graddau nad yw unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir yn y GDH yn perthyn yn benodol o fewn unrhyw baragraff arall o Atodlen 2, y byddai darparu'r GDH yn ffafriol i weithrediad effeithlon yr Harbwr a'i fod felly o fewn cwmpas Deddf 1964 eu cynnwys yn y GDH.

Chwefror 2024

Comisiwn Harbwr Saundersfoot

ATODIAD A

AMLINELLIAD O'R CYNIGION DATBLYGU AR GYFER HARBWR SAUNDERSFOOT A'U CYNNYDD

Darparwyd yr atodiad hwn fel rhan o'r Datganiad Cefnogi a gyflwynwyd gyda'r cais ffurfiol ym mis Mehefin 2020. Mae llawer o'r wybodaeth am yr hyn yr oedd disgwyl iddo gael ei ddatblygu ar y pryd bellach wedi'i chyflwyno ac ar waith yn llwyddiannus.

**Commented [TS2]:** I saw little point in updating this and giving a summary of where we are at now with most of the development having been completed and in operation - others may have a view that it would be useful to do so however. Thus any views welcome please.

Yn dilyn Gorchymyn Grymuso 2011, penodwyd grŵp newydd o Gomisiynwyr drwy broses Llywodraeth Cymru i'r harbwr pysgota a hamdden bach, deniadol hwn – ond fel y sylweddolodd y Comisiynwyr yn fuan, roedd yn fusnes esgyrnaidd, mewnblyg iawn, a oedd yn tynnu'r rhan fwyaf o'i refeniw annigonol o barcio ceir.

Tua naw mlynedd yn ddiweddarach mae'r Harbwr yn wahanol iawn – nid maes parcio yn unig mwyach ond unwaith eto yn harbwr gweithiol gweithgar, curiad calon yr economi dwristiaeth leol a hanner ffordd trwy fuddsoddiad o £10+m i ail-lunio'r harbwr pysgota a hamdden hwn yn llwyr i Ganolfan Arfordirol Ryngwladol Cymru.

Mae hyn yn golygu ehangu ei weithrediad cychod, goresgyn problemau llanw trwy adeiladu llithrfa newydd er mwyn lansio ym mhob math o lanw, gosod mwy o angorfeydd a phontynau harbwr allanol a system rheseli cychod sych ar y lan. Mae'r datblygiadau hyn yn llwyr gefnogi bwriad Croeso Cymru i gynyddu'r defnydd o'n dyfroedd arfordirol at ddefnydd hamdden.

Bydd datblygiadau eiddo’r harbwr yn darparu llety dros nos i dwristiaid gweithgareddau, dehongliad o'r dreftadaeth leol, mannau cymunedol a manwerthu pob tywydd a, thrwy orchuddio'r llifddor, maent eisoes wedi darparu arena ddigwyddiadau a fydd yn y cam nesaf yn defnyddio cefndir arloesol dyblygiad "llong uchel".

Mae defnyddwyr masnachol yn elwa ar bontŵn harbwr mewnol newydd sy'n caniatáu mynediad mwy diogel i deithwyr ar y cychod mordeithio lleol a'r ffenestr weithredol ehangach.

Sut cyflawnwyd hyn? Wel, roedd nifer o elfennau ynghlwm, a llawer ohonynt yn berthnasol i unrhyw fusnes er y bydd eu cymysgedd a'u dwyster yn anochel yn wahanol.

Y cyntaf oedd hunan-ddadansoddiad - cydnabod yn agored fod y busnes yn tanberfformio, yn drifftio a hynny heb fawr o synnwyr cyfeiriad a’i enw da’n dirywio.

Roedd adnabod gweledigaeth yn gynnar yn rhan annatod o adolygiad strategol manwl lle nododd y comisiynwyr eu dyfodol dewisol a oedd â ffocws, pwrpas clir ac ymrwymiad unfrydol i'w gyflawni. Yna cafodd rheolwyr a staff medrus a brwdfrydig eu recriwtio i gyflawni hyn.

Fel porthladd ymddiriedolaeth, roedd yn bwysig i'r Harbwr ymgysylltu'n llawn â'r holl randdeiliaid, gan gynnwys y sector cyhoeddus (Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro) i gydredeg â'u polisïau, ac ymgymryd ag ymgynghoriad manwl ac agored yn lleol â defnyddwyr yr harbwr, busnesau lleol a'r gymuned.

Mae buddsoddiad o fwy na £10m hyd yn oed dros ychydig flynyddoedd y tu hwnt i gapasiti busnes cymharol fach fel Harbwr Saundersfoot. Fodd bynnag, mae effaith economaidd y datblygiadau hyn yn chwarae ymhell y tu hwnt i'r sefydliad ei hun ac mae achos wedi'i wneud a chefnogaeth wedi'i chael i gyllid Ewropeaidd a'r sector cyhoeddus ychwanegu at gyllid a benthyca yr Harbwr ei hun. Dyma wir enghraifft lwyddiannus o'r sectorau preifat a chyhoeddus yn gweithio'n agos gyda'i gilydd.

Roedd ymgysylltu â rheoleiddwyr hefyd yn hanfodol, yn enwedig o ystyried bod yr Harbwr mewn Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA) a hefyd Parc Cenedlaethol ac, wrth gwrs, yn destun cydymffurfio â chraffu perthnasol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ar ôl sefydlu'r weledigaeth a'r cyfeiriad teithio, roedd yn bwysig cyfateb adnoddau a galluoedd a'u gosod mewn amserlen gyraeddadwy – fesul cam.

Fel rhagflaenydd i ddechrau'r datblygiadau roedd digwyddiad a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2015 pan ymwelodd y Prif Weinidog Carwyn Jones â'r pentref a chyhoeddi bod prosiect i ailddatblygu'r cyfleusterau morol wedi'i ddyfarnu. Dywedodd "Bydd y cynllun yn gweld yr harbwr, a adeiladwyd 185 mlynedd yn ôl, yn cael ei ailwampio i wella mynediad ond hefyd i sicrhau ei hyfywedd hirdymor"

Cam 1

Yn dilyn ymweliad a chyhoeddiad y Prif Weinidog, cwblhawyd y rhan fwyaf o gam 1 yn ystod 2015, gan gynnwys pontynau ac angorfeydd ymwelwyr, llithrfa allanol a rheseli cychod sych. Bu hyn eisoes o fudd i ddefnyddwyr hamdden yr harbwr trwy oresgyn problemau llanw trwy adeiladu llithrfa newydd, sydd bellach yn caniatáu lansio ym mhob math o lanw. Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i weithfeydd yr harbwr ac mae'n cefnogi bwriad Croeso Cymru i gynyddu'r defnydd o'n dyfroedd arfordirol at ddefnydd hamdden.

Mae nifer o elfennau wedi cyfrannu at gynnydd dramatig mewn amseroedd mynd i'r dŵr i ddefnyddwyr cychod. Yn ogystal, maent wedi galluogi'r Harbwr i estyn ei weithrediad cychod o 200 i 300+ o gychod gydag uchelgais gyffredinol i estyn y cyfnod gweithredu tymhorol ac atyniadau ymwelwyr. Mae'r elfennau hyn wedi cynnwys:

1. Pontŵn Ymwelwyr yr Harbwr Allanol

Mae galw cynyddol am angorfeydd ymwelwyr ar gyfer cychod sy'n croesi Môr Hafren, o ddynesfeydd deheuol Cernyw / Dyfnaint ac Iwerddon. Nod y Comisiynwyr felly oedd sefydlu cyfleuster angori pontŵn sy'n arnofio ym mhob math o lanw sy'n cynnig

cyfleuster sylweddol i'w ddeiliaid angorfa presennol a chychod sy’n ymweld angori ochr yn ochr ag ef.

Am y tro cyntaf, mae cyfleuster o'r fath wedi galluogi perchnogion cychod lleol ac ymwelwyr i gael angorfa pob llanw yn ardal Bae Caerfyrddin, a dim ond llond llaw o gyfleusterau o'r fath yng Nghymru.

2. Angorfeydd Siglo / Llanw Hwyr i Ymwelwyr yr Harbwr Allanol

   Mae'r Harbwr wedi gosod 10 angorfa siglo i ymwelwyr yn 2015 ac wedi cynyddu'r rhain yn 2016 i 15 ac yn 2017 i 20, wrth i'r galw gynyddu. Gellir archebu pob un ohonynt ymlaen llaw am hyd at bythefnos fel y gall teuluoedd ar wyliau gael eu cwch yn barhaol ar y dŵr yn ystod eu harhosiad.

   Mae'r cyfleuster hwn wedi creu dynesfa fwy hamddenol gan gychod sy’n ymweld gan nad oes angen iddynt boeni am y llanw, gan ganiatáu iddynt archwilio safleoedd tir Sir Benfro yn y bore os rhagwelir y bydd y tywydd yn brafiach yn ystod y prynhawn.

3. Llithrfa yr Harbwr Allanol

   Ar hen safle J&T ym mhen dwyreiniol yr Harbwr, yr unig gyfleuster o'r fath sy'n cyrraedd Bae Caerfyrddin, gan roi mynediad di-dor i'r llinell ddŵr, felly, yn cynyddu mynediad i’r dŵr o'r ddwy awr bresennol bob ochr i'r llanw i ddyblu'r cyfle i 4 awr sydd wedi arwain at sefyllfa lle dim ond am ychydig oriau bob dydd y cyfyngir ar fynediad i’r dŵr

   Mae'r cyfleuster hwn wedi gallu rhoi i ddefnyddwyr yr harbwr a chychod ymwelwyr y gallu i drefnu eu gwyliau o amgylch anghenion teuluol, nid dim ond pan fydd y llanw ar gael. Felly, marchnata Saundersfoot fel lleoliad llawer mwy dymunol i aros.

4. Rheseli Cychod Sych

   Mantais y system hon yw bod cwch ar y dŵr dim ond pan fydd angen, gan alluogi'r Harbwr i gynyddu ei argaeledd i 80 o ddefnyddwyr cychod ychwanegol o leiaf gyda'r budd ychwanegol i'r perchennog o leihau'r angen i ddefnyddio paent gwrth-faeddu a lleihau traul a gwisgo yn sylweddol.

   Gall tîm yr Harbwr lansio ac adfer cychod gan leihau cymhlethdodau bod yn berchen ar gwch a chreu profiad llawer mwy pleserus i'r teulu cyfan.

   Am y tro cyntaf, mae cyfleuster o'r fath wedi galluogi defnyddwyr yr Harbwr ac ymwelwyr gwyliau i Sir Benfro gyrraedd Bae Caerfyrddin drwy system storio sy'n cynnal ansawdd eu cwch.

5. Pontŵn Glanio’r Harbwr Mewnol

   Mae'r Harbwr wedi gosod ramp mynediad ar strwythur pontŵn sy'n cynnig mynediad diogel gan alluogi pobl lai symudol i gael mynediad at gychod hamdden a'r cychod mordeithio rhagorol a weithredir o'r harbwr.

6. Dec yr Harbwr

Trwy osod dec dros yr hen llifddor, heb rwystro ei weithrediad, mae'r harbwr wedi creu man agored cymunedol gwerthfawr sy'n gallu cynnal digwyddiadau awyr agored waeth beth fo'r tywydd, gan ddarparu lleoliad i gefnogi'r rhaglen ardderchog bresennol o ddigwyddiadau y tu allan i'r tymor a lwyfannir gan Siambr Twristiaeth Saundersfoot.

Mae hwn yn lleoliad delfrydol i ddod i eistedd ac ymlacio neu fwynhau picnic i'r teulu, gyda rhaglen o ddigwyddiadau i'w datblygu gan greu dyddiadur digwyddiadau atmosfferig o gerddoriaeth/diwylliant/bwyd a'r celfyddydau.

Cam 2

Mae Cam 2 ar y gweill ar hyn o bryd a bydd yn darparu'r Ganolfan Ragoriaeth Forol (MCoE) sy'n gartref i Ganolfan Arfordirol Ryngwladol Cymru, a fydd yn gweithredu fel porth marchnata twristiaeth forol i holl gyfleusterau arfordirol Cymru gyda chynllun marchnata ledled y DU.

Bydd y buddsoddiad hefyd yn darparu tri atyniad thema, cysylltiedig i ymwelwyr; un yw'r Ganolfan Storm o fewn y Ganolfan Ragoriaeth, un arall yw'r Ganolfan Treftadaeth a'r Celfyddydau fel rhan o ddatblygiad Ocean Square ac ychwanegiad at y Dec Digwyddiadau gyda'r Ganolfan Sgwner Arfordirol. Yn ogystal, bydd cyfleusterau ymwelwyr a manwerthu Ocean Square yn elwa ar amgylchedd awyr agored arloesol dan orchudd, gan roi ased gwerthfawr i'r pentref trwy gydol y flwyddyn sydd wedi'i warchod rhag y tywydd.

Mae darparu cyfleoedd i fusnesau newydd a chreu swyddi yn sylfaenol i'r buddsoddiad.  Bydd y rhyw 100 o swyddi newydd a ragwelir yn dod yn sgil ehangu gweithrediadau harbwr y Comisiynwyr eu hunain ac yn bwysicach byth yn sgil darparu cyfleoedd manwerthu, gweithdai a gweithgareddau ar gyfer ehangu a chreu busnes gan eraill. Bydd y rhain yn canolbwyntio'n arbennig (ond nid yn llwyr) ar Ocean Square ar gyfer canolfannau manwerthu (gan gynyddu'r ôl troed manwerthu yn Saundersfoot bron i 50%) ac yn y Ganolfan Ragoriaeth Forol ar gyfer gweithrediadau gweithdai a gweithgareddau morol. Bydd y Sgwner a rhan o ddatblygiad Ocean Square hefyd yn darparu cyfleoedd i fusnesau a gweithgareddau yn y sector celf, diwylliant a threftadaeth – y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod eu gwerth i economi Sir Benfro a chefn gwlad Gorllewin Cymru yn fwyfwy pwysig.

Bydd dull y Comisiynwyr o ddenu, meithrin a datblygu partneriaethau gwirioneddol yn cynnwys cymorth i fusnesau newydd cychwynnol, lesoedd hyblyg a marchnata cyrchfan cysylltiedig y bydd pawb yn elwa arnynt, gan gynnwys busnesau y tu allan i'r Harbwr, mewn mannau eraill yn Saundersfoot.

Cam 3

Y canlyniad terfynol fydd harbwr wedi'i drawsnewid yn llwyr – un proffidiol, a ddefnyddir yn helaeth, sy’n denu mathau newydd a gwahanol o ddefnyddwyr ac ymwelwyr i'r economi leol; pan fydd wedi'i gwblhau, bydd yn creu dros 90 o swyddi newydd a’r rheini’n uniongyrchol a thrwy'r busnesau bach newydd ac estynedig sy'n defnyddio Canolfan Arfordirol Ryngwladol Cymru yn Saundersfoot.

Mae rhagor o wybodaeth a manylion y datblygiadau ar gael ar y wefan yn https://www.saundersfootharbour.co.uk/harbour-developments/. Rhoddir delweddau o'r datblygiad arfaethedig isod.

Datblygiad Cam 2 Porthladd Ymddiriedolaeth Saundersfoot



Datblygiad Cam 2 Porthladd Ymddiriedolaeth Saundersfoot

Canolfan Ragoriaeth Forol



Datblygiad Cam 2 Porthladd Ymddiriedolaeth Saundersfoot

Dec Digwyddiadau Cenedlaethol a Sgwner Arfordirol Treftadaeth



Ocean Square

